# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad sy'n cael ei asesu**

| | | |
|---|---|---|
| Beth sy'n cael ei asesu? | ☐ | Swyddogaeth |
| | ☒ | Polisi |
| | ☐ | Prosiect |
| | ☐ | Penderfyniad |

| | | |
|---|---|---|
| Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad | Polisi Disgyblu (diwygiedig)<br><br>Polisi Cwynion (diwygiedig) | |
| Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn? | Polisi Disgyblu: sicrhau bod agwedd glir a theg at faterion disgyblu o fewn OGCC sy'n adlewyrchu arferion da a chanllawiau ACAS.<br><br>Polisi Cwynion: nodi proses glir a theg i ganiatáu i staff wneud cwynion ac i gwynion gael eu trin mewn ffordd sy'n deg i'r rhai dan sylw ac sy'n cydymffurfio â chanllawiau ACAS. | |
| Ar bwy mae'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn effeithio? | Yr holl staff sydd â Chontract Cyflogaeth | |
| Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn? | TU, Staff | |
| Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn? | Marilyn Maidment (Partner Busnes AD)<br><br>Ania Rolewska (Pennaeth EDI) | |
| | Dyddiad: 30/11/2022 | Fersiwn: 1.0 |

**Sgrinio cychwynnol**

| Cwestiwn | Y | N | Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno |
|---|---|---|---|
| A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer? | ☐ | ☐ | Nododd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb blaenorol y polisi hwn y gallai rhai grwpiau wynebu anfanteision yn ystod y broses ddisgyblu neu gwyno (gweler isod) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb? | ☐ | ☒ | |
| A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi unrhyw grŵp o bobl dan anfantais? | ☒ | ☐ | Gallai'r polisi effeithio ychydig yn wahanol ar bobl a allai fod angen addasiadau rhesymol oherwydd anabledd neu sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer ymateb i anghenion yr unigolion hyn eisoes yn dod o dan bolisïau a dyletswyddau eraill OGCC; ac fe'u cadarnheir yn y polisi hwn sy'n cael ei asesu. |

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

## Asesiad o Effaith

| Nodwedd | Effaith bosibl: Negyddol | Effaith bosibl: Niwtral | Effaith bosibl: Cadarnhaol | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu: Negyddol | Effaith ar ôl camau gweithredu: Niwtral | Effaith ar ôl camau gweithredu: Cadarnhaol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystyriaethau trawsbynciol | ☐ | ☐ | ☒ | Bwriad y polisïau hyn yw sicrhau bod gweithdrefnau disgyblu a chwyno yn cael eu cymhwyso'n deg i'r holl staff. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☒ | Mae'r Polisi Cwynion yn datgan yn glir na ddylid gwahaniaethu yn erbyn aelodau staff na'u herlid am leisio'r gŵyn. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ | | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Oedran | ☐ | ☐ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anabledd | ☐ | ☒ | ☐ | Mae'n bosibl y gallai staff sy'n anabl gael eu rhoi dan anfantais wrth<br><br>• geisio cael mynediad at y drefn gwyno<br>• bod yn destun gweithdrefn ddisgyblu.<br><br>Mae'r polisïau a aseswyd yn lliniaru'r risg honno drwy ddatgan yn glir ein hymrwymiad i gynnig addasiadau rhesymol yn ystod y broses. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☒ | ☐ | ☐ | Mae risg fach y gellir dehongli effeithiau neu symptomau anabledd person fel mân gamymddwyn (e.e. prydlondeb gwael oherwydd rhesymau iechyd). | Mae nodyn atgoffa wedi'i gynnwys yn Atodiad I i ystyried addasiadau rhesymol neu anableddau a allai effeithio ar allu Aelod o Staff i fodloni'r holl safonau gofynnol. Dylid ceisio cyngor gan y Partner Busnes Adnoddau Dynol cyn bwrw ymlaen â materion disgyblu. | ☐ | ☒ | ☐ |
| Rhywedd (rhyw) | ☐ | ☐ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | | ☐ | ☐ | ☐ |

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☒ | ☐ | ☐ | Risg bosibl y gallai'r amserlenni a nodir yn y polisïau roi pobl sydd ar absenoldeb rhiant dan anfantais. | Byddai'r Partner Busnes Adnoddau Dynol yn cysylltu â'r DM i sicrhau bod amserlenni priodol yn cael eu haddasu er mwyn ystyried ymrwymiadau absenoldeb rhiant. | ☐ | ☒ | ☐ |
| Hil | ☒ | ☐ | ☐ | Mae'n bosibl y bydd staff y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt yn camddeall y polisïau hyn.<br><br>Mae'r risg hon yn un fychan iawn, gan fod gan holl staff OGCC lefel dda iawn o lythrennedd.<br><br>Er hynny, mae'r naill bolisi a'r llall yn cynnwys y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio os mai'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf. | Mae cyfeiriad wedi'i gynnwys yn y ddau bolisi, os mai Cymraeg yw'r iaith gyntaf, y gellir cynnal y broses yn Gymraeg. Os Saesneg ydyw, yna caiff ei gynnal yn Saesneg. | ☐ | ☒ | ☐ |
| Crefydd neu gred | ☐ | ☒ | ☐ | Gallai'r amserlenni a amlinellir yn y polisïau wrthdaro â dathliadau crefyddol.<br><br>Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru gan amserlenni sy'n cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd, sy'n caniatáu osgoi dyddiadau pwysig. | Bydd y Partner Busnes Adnoddau Dynol yn cysylltu â'r DM i osgoi trefnu Gwrandawiadau neu gyfarfodydd ffurfiol yn ystod cyfnodau gwyliau fel Ramadan. | ☐ | ☒ | ☐ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | ☐ | ☐ | ☐ | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y Gymraeg | ☐ | ☒ | ☐ | Mae risg na fydd siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio neu gymryd rhan lawn mewn gweithdrefnau cwyno neu ddisgyblu yn Gymraeg.<br><br>Fodd bynnag, mae'r polisïau a aseswyd yn lliniaru'r risg honno, gan eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r polisïau ar gael yn ddwyieithog, ac maent yn datgan yn glir y gellir | | ☐ | ☒ | ☐ |

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| | | | | cynnal unrhyw ran ffurfiol o'r gweithdrefnau hyn yn Gymraeg. | | | | |
| | ☒ | ☐ | ☐ | Mae'r Polisi Cwynion fel y'i aseswyd yn nodi 'Os oes unrhyw agwedd ar y drefn gwyno yn achosi anhawster i'r aelod o staff oherwydd unrhyw anabledd sydd ganddynt, neu os oes angen cymorth arnynt oherwydd nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dylent godi'r mater hwn gyda'u rheolwr llinell, rheolwr eu rheolwr neu'r cynghorydd Adnoddau Dynol, a fydd yn gwneud trefniadau priodol.' Mae'r adran hon yn hepgor cyfeiriad at y Gymraeg, gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae Egwyddorion Adran 3 yn nodi y gellir codi cwynion yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd unrhyw aelod o staff yn gallu defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â'u dewis mewn unrhyw ran ffurfiol o'r broses hon. Bydd unrhyw gŵyn ffurfiol yn cael ei thrin ac yn cael ei hateb yn yr iaith a ddefnyddir gan y sawl a gyflwynodd y gŵyn. | Mae hyn wedi ei addasu i gynnwys darpariaeth Gymraeg yn y cyflwyniad. | ☐ | ☒ | ☐ |
| Nodweddion economaidd-gymdeithasol<br><br>• natur wledig<br>• incwm isel/dim incwm | ☒ | ☐ | ☐ | Risgiau posibl y gallai'r amserlenni a nodir yn y polisïau roi pobl sydd â dyletswyddau gofal dan anfantais.<br><br>Pan fydd angen ymddangos yn bersonol (e.e. gwrandawiad disgyblu / Cyfarfod Trafod Cwyn), mae angen i'r polisïau egluro sut y bydd y | Mae'r ddau bolisi'n amlinellu os yw Contract Cyflogaeth yn dynodi'r Aelod Staff fel gweithiwr o bell, efallai y bydd angen cynnal unrhyw Wrandawiadau neu gyfarfodydd ffurfiol ar-lein.<br><br>Bydd y Partner Busnes Adnoddau Dynol, ar y cyd â'r DM yn sicrhau bod amserlenni'n cael eu haddasu ar gyfer | ☐ | ☒ | ☐ |

| Nodwedd | Effaith bosibl | | | Esboniwch yr effaith hon | A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?<br><br>Os felly, sut? | Effaith ar ôl camau gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol | | | Negyddol | Niwtral | Cadarnhaol |
| • dyletswyddau gofalu | | | | gofynion hyn yn cael eu cymhwyso i bobl sy'n gweithio o bell. | unrhyw Aelod o Staff sydd angen hynny oherwydd ei gyfrifoldebau gofalu. | | | |

**Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:**

Cofnod o ddefnyddio ein trefn ddisgyblu a/neu gwyno

Anaml iawn y defnyddir y gweithdrefnau hyn o fewn OGCC. Yn 2021/22, nid oedd neb yn destun y broses ddisgyblu nac wedi defnyddio'r drefn ddisgyblu. Dim ond un person a ddefnyddiodd y drefn gwyno.

Erbyn hyn, mae gennym y gallu i ddadansoddi proffil cydraddoldeb y staff sy'n ymwneud â'r drefn ddisgyblu a/neu gwyno. Fodd bynnag, oherwydd bod nifer y staff y mae'r gweithdrefnau hynny'n effeithio arnynt yn fach iawn, nid yw'n bosibl cymharu â data sefydliadol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig na chyhoeddi'r wybodaeth am gydraddoldeb heb beryglu cyfrinachedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer ACAS wrth ddiweddaru'r Polisïau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sefydliadau arall

Mae amrywiaeth o AEGau sefydliadol eraill wedi cael eu hadolygu i edrych ar arferion da ac i ddeall yr effaith y gallai prosesau Disgyblu ei chael ar grwpiau penodol o bobl, e.e.

- Orkney Islands Council
- Maldon District Council
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fodd bynnag, roedd yr asesiadau hyn i gyd yn cael eu cynnal gan sefydliadau llawer mwy lle defnyddiwyd y broses ddisgyblu yn llawer ehangach nag yn achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd**

| |
|---|
| 7/12/22 Staff a TU |

**Adroddiad canlyniadau**

| | | |
|---|---|---|
| **Cam Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gwblhau** | ☒ | Sgrinio cychwynnol |
| | ☒ | Asesiad llawn |
| **Crynodeb o'r effeithiau negyddol a nodwyd** | | |
| **Penderfyniad** | ☒ | Bwrw ymlaen – dim newidiadau |
| | ☐ | Bwrw ymlaen – angen gweithredu |
| | ☐ | Peidio â bwrw ymlaen |
| **Cynllun Gweithredu** | Os oes angen cymryd camau i fwrw ymlaen â'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad, nodwch yma'r camau gweithredu, pwy sy'n gyfrifol amdanynt a phwy fydd yn monitro sut y cânt eu rhoi ar waith. | |
| | **Awdurdodwyd gan**<br><br>**MT** | **Dyddiad**<br><br>**06/12/2022** |